Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o Drefniadau Craffu – Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2474A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer Cyngor Sir Powys fel rhan o waith a wnaed yn unol ag Adran 17 ac Adran 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2018 ar effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, ac mae cytundeb ymhlith aelodau a swyddogion nad yw craffu'n gweithio mor effeithiol ag y gallai 8

Mae cynnydd y Cyngor ers ein hadroddiad yn 2018 wedi bod yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, a hyd yn hyn nid ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella yn 2018 8

Diffyg eglurder a dealltwriaeth barhaus o rolau a chyfrifoldebau aelodau, swyddogion ac aelodau'r cabinet yw'r broblem allweddol sy'n llesteirio craffu effeithiol 9

Mae lle sylweddol o hyd i wella cynllunio craffu 9

Nid yw Pwyllgorau Craffu bob amser yn ystyried y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o wneud gwaith craffu 10

Nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith eto i gefnogi ei swyddogaeth graffu 11

Nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith eto i asesu effaith ei weithgaredd craffu yn llawn 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Yn 2018, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o'r trefniadau craffu yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor). Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi bod yn araf yn datblygu ei drefniadau craffu ac roedd meysydd sylfaenol yr oedd angen iddo fynd i'r afael â nhw er mwyn i brosesau craffu weithredu'n effeithiol a chael effaith. Gwnaethom gyfres o gynigion ar gyfer gwella:

- nodi'n glir yn yr adroddiadau i'r pwyllgor trosolwg a chraffu pam y mae'r pwyllgor yn cael yr wybodaeth a sut y mae hyn yn ymwneud â rôl y pwyllgor craffu;
- darparu mwy o hyfforddiant yn benodol i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn fwy effeithiol;
- gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach i aelodau'r pwyllgor craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i ymgorffori ystyriaethau'r ddeddf honno ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor;
- atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn prosesau trosolwg a chraffu;
- egluro'r trefniadau i gyfleu barn y pwyllgorau trosolwg a chraffu i'r Cabinet ac i'r Cabinet ymateb i'r argymhellion a wneir; a
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu effeithiolrwydd ac effaith prosesau trosolwg a chraffu.

2 Wrth barhau â'n gwaith blaenorol, canolbwyntiwyd yn bennaf ar bum maes allweddol:

- Rôl a nod craffu
- Cynllunio
- Dulliau craffu
- Trefniadau cymorth
- Gwerthusiad

3 Mae'r pum maes yn adlewyrchu'n fras y themâu a nodwyd yn ein papur trafod yn 2019 Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol', gyda rhai addasiadau i adlewyrchu blaenoriaethau lleol.

4 Cynhaliwyd ein hadolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mai 2021.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar gynigion blaenorol Archwilio Cymru ar gyfer gwella ac wedi nodi cyfleoedd pellach i wella?

6 Yn gyffredinol, canfuom: Bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2018 ar effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, ac mae cytundeb ymhlith aelodau a swyddogion nad yw'r broses graffu'n gweithio mor effeithiol ag y gallai. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod cynnydd y Cyngor ers ein hadroddiad yn 2018 wedi bod yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, a hyd yn hyn nid ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella yn 2018
- diffyg eglurder a dealltwriaeth barhaus o rolau a chyfrifoldebau aelodau, swyddogion ac aelodau'r cabinet yw'r broblem allweddol sy'n llesteirio craffu effeithiol;
- bod lle sylweddol o hyd i wella cynllunio gwaith craffu;
- nid yw pwyllgorau craffu bob amser yn ystyried y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o wneud gwaith craffu;
- hyd yn hyn nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi ei swyddogaeth graffu; ac
- nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith eto i asesu effaith ei weithgaredd craffu yn llawn.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r argymhellion yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **2018 Cynigion ar gyfer gwella**<br>Dylai'r Cyngor roi blaenoriaeth i'r canlynol:<br>**A1** Ailystyried y cynigion ar gyfer gwella a nodir yn ein hadroddiad ar effeithiolrwydd craffu yn 2018 ac ymdrin â nhw yn llawn. |

**Argymhellion**

**Er mwyn helpu'r Cyngor i ymdrin yn llawn â'n cynigion ar gyfer gwella yn 2018, rydym wedi nodi isod argymhellion ychwanegol iddo roi sylw iddynt:**

**Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

**A2** Dylai'r Cyngor egluro rôl y panel cyllid a sicrhau ei hun ei fod wedi'i gyfansoddi'n gyfreithlon.

**Cynllunio gweithgaredd craffu**

Dylai'r Cyngor:

**A3** Ailystyried swyddogaeth, rôl a chyfansoddiad y Pwyllgor Cydgysylltu er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor fodd o gydgysylltu ei waith craffu sy'n wahanol i rôl y pwyllgorau wrth iddynt lunio eu rhaglenni gwaith eu hunain.

**A4** Egluro'r broses y mae aelodau a chadeiryddion pwyllgorau craffu yn ei defnyddio er mwyn gallu cynnig pynciau i'w cynnwys yn y rhaglen waith craffu a'u hystyried drwy graffu.

**A5** Datblygu methodoleg a fydd yn caniatáu i'w phwyllgorau craffu gynllunio eu rhaglen waith dros gyfnod hwy, e.e. dros flwyddyn, gan gadw digon o hyblygrwydd i ymateb i faterion ychwanegol pe baent yn codi'n annisgwyl.

**A6** Caniatáu mwy o amser i aelodau pwyllgor Craffu gynllunio eu gweithgaredd yn iawn.

**A7** Sicrhau bod y pwyllgor craffu'n ystyried pa ganlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni cyn iddo benderfynu beth a sut y bydd yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd craffu, ac yna'n cynllunio ei weithgaredd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r canlyniad y mae'n ei geisio.

**Dulliau craffu**

**A8** Dylai swyddogaeth graffu’r Cyngor ystyried amrywiaeth o fethodolegau ar gyfer cynnal gwaith craffu, y tu hwnt i'r dull pwyllgor traddodiadol, a dewis y fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer y pwnc dan sylw.

**Cymorth ar gyfer craffu**

Dylai'r Cyngor:

**A9** Ddarparu hyfforddiant pellach i'r holl aelodau a swyddogion perthnasol ar y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â swyddogaeth graffu effeithiol, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu, ac i'r swyddogion hynny sy'n darparu cymorth ar gyfer y broses graffu.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A10** | Adolygu natur a chwmpas y cymorth sydd ar gael i'r swyddogaeth graffu er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael cymorth i lywio'r gwaith o gynllunio a chynnal eu rhaglenni gwaith, yn ogystal â chymorth gweinyddu pwyllgorau. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2018 ar effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, ac mae cytundeb ymhlith aelodau a swyddogion nad yw craffu'n gweithio mor effeithiol ag y gallai

### Mae cynnydd y Cyngor ers ein hadroddiad yn 2018 wedi bod yn gyfyngedig, yn rhannol oherwydd pandemig COVID, a hyd yn hyn nid ymdriniwyd â rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella yn 2018

7 Yn 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – Cyngor Sir Powys a llunio cyfres o gynigion ar gyfer gwella.

8 Yn 2019, adolygodd y Cyngor ei swyddogaeth graffu gyda chymorth ymgynghorwyr allanol. Gwnaeth newidiadau i'w strwythur craffu yn 2019, yn cynnwys sefydlu:

- gweithgorau i ddatblygu gwybodaeth aelodau am bynciau penodol; a
- phroses ffurfiol ar gyfer cyfleu penderfyniadau'r Cabinet.

9 Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i ddatblygu rôl y broses graffu wrth fonitro gwelliant o ran ei wasanaethau a'i berfformiad.

10 Yn ystod y pandemig yn 2020, roedd Powys yn gyflym i ailgyflwyno trefniadau democrataidd arferol drwy dechnoleg cyfarfod ar-lein, fel y nodir yn ein nodyn cryno ym mis Gorffennaf 2020 ar ddemocratiaeth ddigidol yn y Cyngor. Felly, mae'r pwyllgor craffu wedi gallu cyfarfod yn amlach dros y flwyddyn ddiwethaf, a deallwn fod presenoldeb hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i gyfarfodydd o bell.

11 Rydym yn cydnabod yn llwyr fod 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol oherwydd COVID ac rydym yn derbyn bod rhai elfennau o ddatblygu'r broses graffu wedi arafu neu wedi dod i ben o'r herwydd. Er enghraifft, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mai 2021, roedd y Cyngor yn gweithredu ar fodel parhad busnes. Roedd hyn yn golygu, yn ystod y cyfnod hwn, nad oedd pwyllgorau craffu yn gallu comisiynu eu hadroddiadau eu hunain gan swyddogion a'u bod wedi'u cyfyngu i ystyried adroddiadau a oedd eisoes wedi'u cynhyrchu ar gyfer y Cabinet.

12 Hyd yn oed wrth ystyried yr heriau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig, mae'r cynnydd ers ein hadroddiad yn 2018 wedi bod yn gyfyngedig a hyd yn hyn nid ymdriniwyd yn llawn â'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad.

## Diffyg eglurder a dealltwriaeth barhaus o rolau a chyfrifoldebau aelodau, swyddogion ac aelodau'r cabinet yw'r broblem allweddol sy'n llesteirio craffu effeithiol

13 Canfuom nad oes dealltwriaeth glir na dealltwriaeth a rennir o rôl craffu ar draws y Cyngor, ymhlith swyddogion nac aelodau, er bod rolau a chyfrifoldebau aelodau'r pwyllgor craffu ac aelodau'r cabinet wedi'u nodi yn y trefniadau. Y broblem sylfaenol hon sydd wrth wraidd llawer o'r problemau eraill sy'n llesteirio swyddogaeth graffu'r Cyngor rhag gweithredu'n effeithiol.

14 Mae swyddogaeth a chyfansoddiad Panel Cyllid y Cyngor hefyd yn aneglur. Deallwn fod y ffordd y mae'r Panel Cyllid yn gweithredu wedi newid dros amser. Canlyniad hyn yw bod y Panel yn cael ei ystyried yn eang fel offeryn ar gyfer craffu, ac mae wedi'i gynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor yn yr un adran â threfniadau craffu eraill, ac eto mae ganddo hefyd Aelod o'r Cabinet yn aelod o'r Panel. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn datgan na chaiff pwyllgor nac is-bwyllgor craffu cyngor gynnwys unrhyw aelod o weithrediaeth yr awdurdod (Cabinet). Byddai diffiniad a dealltwriaeth gliriach o rôl a diben y Panel, yn ogystal â rôl unigol aelodau craffu ac aelodau gweithredol, yn helpu i sicrhau'r Cyngor bod y Panel wedi'i gyfansoddi'n gyfreithlon, a sicrhau bod y rôl a'r swyddogaeth y mae'n dymuno i Banel o'r fath eu cyfrannu at drefniadau craffu'r Cyngor yn gliriach ac yn fwy effeithiol.

15 Prin hefyd yw'r ddealltwriaeth ymhlith aelodau a swyddogion o rôl a photensial craffu o fewn trefniadau llywodraethu ehangach y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rôl craffu mewn cysylltiad â byrddau gwasanaethau gwella mewnol y Cyngor, sydd hefyd yn aneglur.

16 Mae'r Cyngor wedi paratoi canllawiau ysgrifenedig ar gyfer aelodau craffu, yn rhan o adroddiad i'r Cyngor ar 30 Gorffennaf 2020 ar ei drefniadau i ddisodli'r Byrddau Gwella a Sicrwydd allanol, ond mae'r diffyg dealltwriaeth gyffredin o rôl craffu yn dangos nad yw'n helpu i roi eglurder ynghylch sut y dylai rolau a chyfrifoldebau weithio orau yn ymarferol.

## Mae lle sylweddol o hyd i wella cynllunio craffu

17 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod aelodau'r Cyngor yn arwain ac yn lansio eu rhaglen waith craffu neu eu heitemau agenda eu hunain yn gyfyngedig. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi chwarae rhan yn arafu cynnydd yn y maes hwn. Er enghraifft, o fis Mawrth 2020 i fis Mai 2021, roedd y Cyngor yn gweithredu ar sail 'hanfodol i fusnes', a olygai fod y pwyllgor craffu'n gallu ystyried adroddiadau a oedd eisoes wedi'u cynhyrchu ar gyfer y Cabinet neu'r Cyngor, ond nid oedd yn gallu comisiynu gwaith ei hun yn annibynnol gan swyddogion.

18 Fel rhan o'i drefniadau craffu, mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cydgysylltu, sy'n cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu, cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, uwch swyddogion a dau Aelod o'r Cabinet.

Canfuom fod cytundeb eang ar draws y Cyngor nad yw'r Pwyllgor Cydgysylltu yn gweithio'n effeithiol.

19 Mae diffyg eglurder ynghylch rôl y Pwyllgor Cydgysylltu. Dywed cyfansoddiad y Cyngor mai'r Pwyllgor Cydgysylltu sy'n gyfrifol am bennu'r rhaglen waith ar gyfer pob pwyllgor craffu. Yn ystod ein gwaith maes, cafodd rôl y Pwyllgor Cydgysylltu ei disgrifio fel rhannu gwybodaeth ac atal dyblygu. Os rôl y Pwyllgor Cydgysylltu yw gosod rhaglen waith pob pwyllgor craffu, mae angen egluro rôl a swyddogaeth yr uwch swyddogion ac Aelodau'r Cabinet sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cydgysylltu, er mwyn sicrhau na fydd canfyddiad eu bod yn cael dylanwad gormodol ar waith y pwyllgorau craffu. Mae angen egluro rôl pob pwyllgor craffu wrth bennu ei raglen waith ei hun, ac egluro'r trefniadau sy'n galluogi aelodau i ychwanegu eitemau at agendâu'r pwyllgorau craffu.

20 Mae canllawiau statudol 2006 ar drefniadau gweithrediaeth a \threfniadau amgen yn nodi, yn gyffredinol, mai Cadeirydd y pwyllgor ddylai gymryd yr awenau wrth gynllunio'r rhaglen waith, er y bydd angen iddo ystyried pa gynlluniau a all fod gan y weithrediaeth a fydd angen cyfraniad gan y pwyllgor craffu. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod angen i'r Cadeirydd ystyried barn aelodau eraill y pwyllgor wrth benderfynu ar y rhaglen waith. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi y dylai fod gan y Cyngor drefniadau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o bwyllgor craffu gyfeirio at y pwyllgor unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor. Dylai'r trefniadau alluogi'r Cyngor i sicrhau bod y mater yn cael ei gynnwys yn yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, a'i drafod ynddo. Nid yw'n glir bod trefniadau presennol y Cyngor yn darparu ffordd ddibynadwy o fodloni gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

21 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi rhaglen waith craffu ar wefan y Cyngor, ond ar adeg ein gwaith maes roedd hon wedi dyddio. Mae'r canllawiau statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 yn dweud y dylai cynghorau gyhoeddi'r wybodaeth hon. Mae peidio â gwneud hynny hefyd yn codi cwestiynau ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ei weithgaredd craffu, yn ogystal â'i drefniadau tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Nid yw Pwyllgorau Craffu bob amser yn ystyried y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o wneud gwaith craffu

22 Nid oes gan y Cyngor system ffurfiol i alluogi’r cyhoedd i gymryd rhan yn ei weithgaredd craffu, a phrin yw'r enghreifftiau o sut y mae gwaith craffu wedi cynnwys y cyhoedd. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 yn nodi bod yn rhaid i'r pwyllgor wneud trefniadau sy'n galluogi pawb sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal i ddwyn eu barn ar unrhyw fater sy’n cael ei ystyried gan y pwyllgor i sylw’r pwyllgor perthnasol hwnnw. Nid yw'n glir sut y byddai unigolyn yn gwneud hyn o dan drefniadau presennol y Cyngor.

23 Mae gweithgaredd craffu yn y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar graffu traddodiadol gan bwyllgor ar adroddiadau ysgrifenedig. Er bod gan gyfarfodydd ac adroddiadau pwyllgor ffurfiol ran bwysig i'w chwarae, mae llawer o ffyrdd

ychwanegol o ymgymryd â gweithgaredd craffu i wneud craffu'n fwy effeithiol. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith ar allu pwyllgor craffu i ystyried a gweithredu dulliau amgen neu arloesol o archwilio pynciau. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o arferion craffu arloesol yn y Cyngor cyn y pandemig.

24 Mae gan y Cyngor adnoddau ac arbenigedd ar gael iddo ar draws y sefydliad. Nid yw’r pwyllgor craffu ar hyn o bryd yn defnyddio'r arbenigedd eang hwnnw i lywio a chefnogi ei waith, er enghraifft drwy ofyn i swyddogion ddarparu data neu ymchwil ychwanegol. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i ddatblygu'r math hwn o weithio, oherwydd y galwadau cynyddol ar amser swyddogion, ond nodwn hefyd fod hon yn broblem i'r Cyngor cyn y pandemig.

## Nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith eto i gefnogi ei swyddogaeth graffu

25 Mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ar Aelodau'r Cyngor ynghylch rôl a swyddogaeth craffu, a'r ffordd fwyaf effeithiol iddynt gyfrannu at ei wneud yn effeithiol. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid oes gan aelodau (na swyddogion) ddealltwriaeth glir a chyffredin o rôl gwaith craffu ar hyn o bryd, ac mae hyn yn atal y swyddogaeth graffu rhag gweithio'n effeithiol. Gellir nodweddu'r cymorth y mae aelodau'n ei gael ar hyn o bryd fel clercio traddodiadol a chymorth gweinyddol pwyllgorau. Ni welsom fod aelodau'n cael cymorth ehangach, er enghraifft ar gyfer deall eu rôl wrth gyfrannu at y broses graffu, beth sy'n arfer da/gwael, ac wrth ddewis a phenderfynu ar bynciau, tystiolaeth ehangach, neu ymchwil ychwanegol.

26 Yn gysylltiedig â'n pwynt cynharach am gymorth gan y sefydliad ehangach, nid yw aelodau’r pwyllgor craffu bob amser yn gwybod pa ddata neu wybodaeth ychwanegol a allai fod ar gael iddynt pe baent yn gofyn amdanynt.

27 Mae cyfle i'r Cyngor edrych eto ar yr hyfforddiant a'r datblygiad y mae'n ei ddarparu i aelodau. Dywedodd aelodau a'r swyddogion wrthym am yr hyfforddiant sy'n benodol i wasanaethau y mae aelodau wedi'i gael, er mwyn eu helpu i feithrin eu gwybodaeth am bwnc penodol, ond ni chlywsom eu bod wedi cael lefel debyg o hyfforddiant a datblygiad sy'n benodol i’r gwaith o graffu ar y ffordd orau o graffu ar faterion allweddol o'r fath. Mae'r Aelodau'n cael rhywfaint o hyfforddiant ar graffu yn gynnar yn y cylch etholiadol, ond fel arfer ceir hyn ochr yn ochr â llawer o wybodaeth arall, ar adeg pan fo gan Aelodau brofiad cyfyngedig o graffu'n ymarferol. Dywedodd cadeiryddion pwyllgorau craffu wrthym nad oeddent wedi cael hyfforddiant penodol ar gyfer y rôl. Pe bai'r Cyngor yn cynnal hyfforddiant a hyfforddiant parhaus sy'n benodol i graffu, byddai gan yr hyfforddiant sy'n benodol i wasanaeth y maent yn ei gael sylfaen gadarnach. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â helpu i egluro rolau a chyfrifoldebau.

## Nid yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith eto i asesu effaith ei weithgaredd craffu yn llawn

28 Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith i adolygu'r swyddogaeth graffu yn ehangach a gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y mae'n gweithio, ond ar adeg ein gwaith maes, nid oedd gan y Cyngor system ar waith yn benodol ar gyfer gwerthuso effaith ei waith craffu, sy'n llesteirio ei ddysgu a'i wella.

29 Dywedodd aelodau’r pwyllgor craffu wrthym hefyd nad ydynt bob amser yn glir ynghylch effaith eu gwaith.

30 Mae'r Cyngor yn casglu rhywfaint o ddata meintiol megis nifer yr argymhellion a wnaed i'r Cabinet a nifer yr argymhellion a dderbynnir gan y Cabinet, ond mae'r darlun y mae hyn yn ei roi ynghylch pa effaith y mae'n ei gyflawni yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid yw'r data hyn yn dweud dim wrth y Cyngor am ansawdd yr argymhellion a wnaed, sut y gweithredodd y Cabinet arnynt, neu a gyflawnwyd unrhyw welliannau i effeithiolrwydd gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor o ganlyniad.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.